**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 01-02(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 9 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 4.40pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Ron Davies | Caerffili |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Yn bresennol* | |
| Mal Thomas (eitem 4) | Partneriaeth Canolbarth Cymru |
| *Swyddogion* | |
| Gareth Jones (eitemau 2 a 3) | Yr Is-adran Rheoli CAP |
| Mike Dunn (eitem 2) | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Tony Edwards (eitemau 2 a 3) | Prif Swyddog Milfeddygol |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Menna Williams | Cynorthwy-ydd Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd

1.1 Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel partner mewn busnes ffermio. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr, a dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio a’i fod yn gysylltiedig

â’r prosiect Pontbren.

1.2 Mynegodd yr Aelodau eu pryder bod swydd Dirprwy Glerc y Pwyllgor yn dal i fod yn wag a nodasant eu bod yn awyddus i weld ymgeisydd addas yn y swydd yn fuan.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog -** ARD 11-02(p1)

*Trefniadau cig oen*

2.1 Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro pwyntiau amrywiol yn ymwneud â diwygio trefniadau cig oen yr UE. Cadarnhaodd ei fod yn bwriadu ychwanegu'r arian a oedd yn yr Amlen i Gymru at y premiwm cyfradd unffurf. Byddai hyn yn cynyddu cyfradd y premiwm o 21 Euro i oddeutu 22 Euro. Bwriadai wneud ymholiadau ynghylch y cynigion hyn ac ymgynghori'n llawn i weld beth oedd y dewisiadau posibl ar gyfer gweithredu'r Amlen ar ôl 2002. Cytunodd i ysgrifennu at Aelodau'r Pwyllgor gyda manylion pellach, yn fwyaf arbennig ynghylch gwerth yr Amlen yn y dyfodol, ei hamserlen, hyblygrwydd wrth ei defnyddio a'r ddeddfwriaeth eilaidd fyddai ei hangen er mwyn ei gweithredu.

*Trefniadau symud dros dro clwy'r traed a'r genau*

2.2. Yn ystod y drafodaeth ar drefniadau symud dros dro clwy'r traed a'r genau:

- Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai pwnc canolfannau casglu dynodedig ar gyfer anifeiliaid sydd i'w hallforio yn cael ei godi mewn cyfarfodydd gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac yng nghyfarfod nesaf Gweinidogion Amaeth y DU. Byddai pwysigrwydd arolygu a gweithredu rheolyddion er mwyn atal cynnyrch sydd wedi ei wneud â chig heintiedig rhag cael ei fewnforio'n anghyfreithlon neu'n ddiarwybod yn cael ei godi hefyd.

- Yr oedd y Gweinidog yn deall bod y diwydiant yn awyddus i weld y cyfyngiadau symud presennol yn cael eu llacio. Ond yr oedd yn rhaid i hyn ddigwydd yn unol â chamau bio-ddiogelwch priodol ac ni ddylai roi'r cynnydd a oedd wedi ei wneud â'r gwaith o ddileu'r clwy yn y fantol.

- Gobeithiai'r Gweinidog y byddai modd ailagor marchnadoedd gwartheg erbyn canol Chwefror, ond Adran yr Amgylchedd oedd â'r hawl i wneud y penderfyniad terfynol.

- Nododd y Pwyllgor fod y gwahaniaethau rhwng amseroedd ailagor marchnadoedd defaid a marchnadoedd gwartheg yn adlewyrchiad o'r ffaith fod arwyddion clinigol clwy'r traed a'r genau yn haws i'w canfod mewn gwartheg. Yr oedd Pwyllgor Milfeddygol Safonol Ewrop yn ffyddiog bod y clwy dan reolaeth ac yr oedd yn bwysig peidio â thanseilio hyn.

- Yr oedd trefniadau newydd wedi eu cytuno ar gyfer y rhaglen dros dro yng nghyswllt olrheinadwyedd defaid. Byddai trefniadau adnabod defaid yn dibynnu yn y tymor hir ar waith

ymchwil a oedd yn cael ei wneud yn yr UE.

- Yr oedd canllawiau'n cael eu paratoi ar gyfer cynnal sioeau a rasys cwn. Anogwyd y Gweinidog i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y byddai hynny'n bosibl.

- Nododd y Pwyllgor y byddai rhagor o ganllawiau yn ymwneud â gweithredu'r trefniadau symud dros dro'n cael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau dulliau gweithredu cyson.

*Coedwigaeth*

2.3. Gwnaethpwyd y pwyntiau isod mewn perthynas â'r eitemau a oedd yn ymwneud â choedwigaeth yn adroddiad y Gweinidog:

- Croesawyd llwyddiant y prosiect Pontbren. Er na welwyd unrhyw newid yn y grantiau a oedd ar gael, yr oedd y rhai a oedd yn ymwneud â'r prosiect wedi elwa o becyn cymorth pwrpasol a oedd wedi ei drefnu gyda'r Comisiwn Coedwigaeth a'r Adran Amaethyddiaeth.

- Mynegwyd pryder nad oedd rhai coedlannau preifat o'r un safon â'r rhai a reolid gan Fenter Coedwigaeth. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried a ddylai'r Adolygiad Datganoli Coedwigaeth ymwneud â phwerau'r Cynulliad dros goedwigoedd preifat. Byddai'r adolygiad hefyd yn bwrw golwg ehangach ar y dewisiadau posibl ar gyfer rhagor o ddatganoli yng nghyswllt polisi a rheoli coedwigoedd. Teimlai'r Gweinidog fod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda, fel y gwelid yn strategaeth goedlannau Comisiwn Coedwigaeth Cymru a oedd yn rhagweld datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cytbwys coedwigaeth. Awgrymwyd bod angen i reoliadau cynllunio fod yn fwy hyblyg er mwyn cefnogi hyfywedd economaidd coedwigoedd preifat.

- Croesawyd y cynllun *Shelterwoods*.

*Hela*

2.4. Holwyd y Gweinidog a gafwyd unrhyw dystiolaeth yn sgil y gwaharddiad ar hela llwynogod o ganlyniad i gyfyngiadau clwy'r traed a'r genau i awgrymu bod llwynogod yn achosi colledion mawr i ffermwyr. Mewn ymateb i hyn dywedodd y Gweinidog y byddai'n croesawu ymchwil i'r effaith yr oedd peidio â hela wedi ei gael ar dda byw. Yr oedd y cyngor cyfreithiol a dderbyniasai yn awgrymu y gallai'r Cynulliad wynebu her gyfreithiol pe bai'n ceisio gwahardd hela fel adloniant ar dir y Comisiwn Coedwigaeth. Pan holwyd ef ynghylch y cyngor hwn, dywedodd y byddai'n barod, pe bai'r Pwyllgor yn dymuno, i baratoi papur ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol yn nodi'r cyngor a gafwyd.

*Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru*

2.5. Holwyd y Gweinidog ynghylch dirymu'r Gorchymyn yn pennu cyllid ac aelodaeth Pwyllgor

Pysgodfeydd Môr De Cymru. Dywedodd mai'r prif reswm dros benderfyniad y Llys oedd bod y Gorchymyn yn pennu faint yn union yr oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ei gyfrannu yn hytrach na gosod uchafswm cyffredinol ar eu cyfer. Byddai'r Gorchymyn blaenorol yn dal i fod mewn grym hyd nes y byddai un newydd yn cael ei wneud.

2.6. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r Pwyllgor, a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth pe dymunai, yn cael cyfle, a digon o amser, i ystyried y Gorchymyn newydd. Nododd y Gweinidog fod angen i'r Gorchymyn newydd fod mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ond cytunodd i gyflwyno manylion i'r Pwyllgor.

*Tir Gofal*

2.7. Gofynnwyd i'r Gweinidog ddarparu nodyn byr ar yr adolygiad o'r cynllun Tir Gofal a dyfodol cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn un o'i Adroddiadau yn y dyfodol. Gan fod y cynllun yn un pwysig, cytunodd y Cadeirydd y byddai ef a'r Gweinidog yn ystyried sut y gellid cynnwys ystyriaeth fanylach o gynlluniau amaeth-amgylcheddol yn rhaglen waith y Pwyllgor.

*Cyswllt Ffermio*

2.8. Gofynnwyd i'r Gweinidog faint o ffermwyr oedd wedi ymuno â Chyswllt Ffermio. Hyd yn hyn, gwnaethpwyd cais am oddeutu 3,000 o adolygiadau datblygu busnes fferm, yr oedd ymgynghorwyr wedi eu neilltuo ar eu cyfer, ac yr oedd dros 100 ohonynt wedi eu cwblhau. Yr oedd rhai o'r rhain wedi arwain at geisiadau am grant yn barod, ac yr oedd y cyntaf ohonynt ar fin cael ei gymeradwyo. Bwriadai'r Gweinidog gynnwys adroddiad ar gynnydd Cyswllt Ffermio yn ei adroddiad yn Chwefror a dywedodd y byddai hyn hefyd yn ffordd o asesu a oedd digon o arian ar gyfer y galw.

*Pysgota â rhwydi Lave*

2.9. Dywedodd y Gweinidog fod pysgota â rhwydi *lave* yn cael ei drafod yn ymgynghoriad presennol Asiantaeth yr Amgylchedd ar is-ddeddfau. Nid oedd yn dymuno gweld tranc yr etifeddiaeth ddiwylliannol a oedd yn gysylltiedig â rhwydi *lave* a byddai'n ystyried cyfarfod pysgotwyr rhwydi *lave* cyn gynted ag y byddai'r ymgynghoriad wedi ei gwblhau.

*Defnydd anghyfreithlon o blaleiddiaid*

2.10. Holwyd y Gweinidog pa mor aml y gwenwynid bywyd gwyllt o ganlyniad i gamddefnyddio plaleiddiaid amaethyddol. Cytunodd i gynnwys nodyn ar y broblem a'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i'w goresgyn yn un o'i Adroddiadau yn y dyfodol.

**Camau gweithredu**

Y Gweinidog i ysgrifennu at Aelodau'r Pwyllgor ynghylch Amlen Genedlaethol y Premiwm Blynyddol

Defaid, yn fwyaf arbennig, gwerth yr Amlen yn y dyfodol, ei hamserlen, hyblygrwydd wrth ei defnyddio a'r ddeddfwriaeth eilaidd fyddai ei hangen er mwyn ei gweithredu – **Gweinidog, Is-adran Polisi Amaethyddol**

Y Gweinidog i ysgrifennu at Aelodau'r Pwyllgor gyda manylion ynghylch yr adnoddau sydd ar gael gan Lywodraeth y DU er mwyn arolygu cynhyrchion cig sy'n cael eu mewnforio - **Gweinidog, Is-adran Iechyd Anifeiliaid**

Y Gorchymyn Diwygiedig ar gyllid Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru i'w gyflwyno i'r Pwyllgor (a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth os yw'n dymuno) i gael ei ystyried - **Gweinidog, Is-adran Polisi Amaethyddol**

Ystyriaeth o ddyfodol cynlluniau amaeth-amgylcheddol i'w chynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor – **Cadeirydd gan ymgynghori â'r Gweinidog**

Adroddiad y Gweinidog yn y dyfodol i gynnwys nodyn yn trafod pa mor aml y gwenwynir bywyd gwyllt o ganlyniad i gamddefnyddio plaleiddiaid amaethyddol a'r gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn goresgyn y broblem - **Gweinidog, Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

**Eitem 3: Brechu rhag clwy'r traed a'r genau**

3.1 Yr oedd yr Aelodau'n falch o dderbyn y papur a ddarparwyd gan y Prif Swyddog Milfeddygol ond cytunasant y dylid gohirio'r drafodaeth er mwyn iddynt allu ystyried y gwahanol ddadleuon sy'n gysylltiedig â brechu. Byddai'r Cadeirydd yn ystyried beth fyddai'r ffordd orau o gynnwys y mater yn rhaglen waith y Pwyllgor.

**Cam gweithredu**

Ystyriaeth o'r dadleuon sy'n gysylltiedig â brechu i'w cynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor – **Cadeirydd/Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 4: Adolygiad o TGCh mewn ardaloedd gwledig**

4.1. Croesawodd y Cadeirydd Mal Thomas o Bartneriaeth Canolbarth Cymru i'r cyfarfod. Gellir gweld copi o'i gyflwyniad ar Gynllun Gweithredu TGCh Partneriaeth Canolbarth Cymru trwy glicio yma.

4.2. Yr oedd cynllun gweithredu'r Bartneriaeth er mwyn hybu'r defnydd o TGCh yng nghanolbarth Cymru'n dibynnu ar dri pheth – marchnata, sgiliau a chysylltiadau. Pe bai unrhyw un o'r rhain yn cael ei esgeuluso, byddai'r strategaeth gyfan yn cael ei thanseilio.

4.3. Yr oedd Mal Thomas yn croesawu menter Cymru Arlein ac yn falch o weld y cynnydd a oedd wedi ei wneud â'r gwaith o ddarparu cysylltiad band llydan i gymunedau gwledig. Yr oedd mwy o waith i'w

wneud eto, fodd bynnag, er mwyn darparu cysylltiadau o ganolfannau unigol i gartrefi, cymunedau a busnesau. Yr oedd y costau’n sylweddol ac yn fwy nag y gallai’r Bartneriaeth ei fforddio hyd yn oed â’r tybiaethau mwyaf optimistig ynghylch cymorth o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Yr oedd y Bartneriaeth, felly, yn gobeithio y byddai’r Cynulliad yn ystyried neilltuo rhagor o arian.

4.4. Teimlai Mal Thomas fod nifer bychan y mentrau bach a chanolig eu maint a oedd yn ymwneud â TGCh yng nghanolbarth Cymru yn adlewyrchiad o anwybodaeth ynghylch potensial TGCh a hefyd yn adlewyrchiad o’r costau. Byddai darparwyr yn cyflenwi gwasanaethau i unrhyw leoliad, ond gallai costau gwneud hynny mewn ardaloedd gwledig fod yn rhwystr.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol -** ARD 18-01(min)

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr.

**Ysgrifenyddiaeth** **Ionawr 2002**